

GWNEWCH GAERDYDD YN LLE GWYCH I GERDDED

Mae Living Streets am weld Caerdydd iachach, glanach gyda llai o dagfeydd, lle mae cerdded yn weithgaredd diogel a phleserus ar gyfer pobl o bob oed a gallu.

PAM?

Mae arweinwyr ledled y byd yn dechrau sylweddoli os byddant yn cynllunio ar gyfer cerdded bydd dinasyddion yn iachach a hapusach a byddant yn denu busnesau a buddsoddiad. Yn fwy nac erioed mae cwmnïau am leoli mewn dinasoedd sy'n darparu lleoedd y gellir byw ynddynt, ac sy'n iach a diogel ar gyfer eu gweithwyr a'u cwsmeriaid.

Mae gwersi sydd i'w dysgu ledled y byd yn dangos sut y gellir creu strydoedd ar gyfer pobl yn hawdd ac yn gymharol rhad ac y gall y newidiadau hyn fod yn boblogaidd.

Rydym am i Arweinydd nesaf Cyngor Caerdydd wneud penderfyniadau beiddgar a llawn gweledigaeth er mwyn gwneud y dinasoedd a'r trefi yn fannau gwych i gerdded.

SUT?

Dyma'r pum peth y dylai Arweinydd nesaf Cyngor Caerdydd ymrwymo iddynt:

- 1. Gwneud cerdded ar gyfer siwrneiau byr yn flaenoriaeth**
Datblygu strategaeth hirdymor fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol ar gerdded a gwelliannau i dir y cyhoedd sy'n nodi targed uchelgeisiol i gynyddu cerdded ar gyfer siwrneiau byr. Penodi rhywun ar lefel uchel i hyrwyddo cerdded ledled Caerdydd.





2. Lleihau goruchafiaeth cerbydau a gwneud gofod ar gael ar gyfer pobl

Gorchymyn Tîm Trafnidiaeth Cyngor Caerdydd i asesu ymarferoldeb cynllun prisio ffyrdd clyfar ar gyfer canol dinas Caerdydd sy'n mynd i'r afael â llygredd aer, goruchafiaeth cerbydau a thagfeydd, ac sy'n creu referniw ar gyfer cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

3. Creu cymunedau cyfeillgar i gerddwyr ledled y ddinas

Arwain menter sy'n creu canolfannau cyfeillgar i gerddwyr er mwyn annog pobl i wneud siwrneiau lleol ar droed neu feic, helpu i adfywio cymunedau a dod â mwy o gwsmeriaid i fusnesau lleol. Gall newidiadau bach wneud gwahaniaeth mawr i'r profiad cerdded yng Nghaerdydd, megis gwneud aros i groesi yn fyrrach ac amseroedd croesi yn hwy.

4. Cael Caerdydd i Gerdded

Cyflawni rhaglen trawsnewid ymddygiad er mwyn gwobrwyo pobl o bob oed sy'n cerdded i'r ysgol neu'r gwaith a lleihau oedi ar rwydwaith ffyrdd gorlawn y ddinas.

5. Creu Caerdydd ddiogelach

Mabwysiadu dull 'Vision Zero' ar gyfer diogelwch ffyrdd, sy'n rhoi dileu perygl ffyrdd wrth galon y system drafnidiaeth ac ymrwymo i derfyn cyflymder 20mya ar draws Caerdydd gyfan lle mae pobl yn byw, gweithio a siopa.



We are Living Streets, the UK charity for everyday walking. We want to create a walking nation where people of all generations enjoy the benefits that this simple act brings, on streets fit for walking.



**LIVING
STREETS**